O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2032 (Cy. 236)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 23, Llanddulas, Conwy) (Gwaharddiadau Traffig a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed 1 Awst 2012

Yn dod i rym 9 Awst 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer — Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt:

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4), a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a phob pŵer galluogi arall (2), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Awst 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 23, Llanddulas, Conwy) (Gwaharddiadau Traffig a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 9 Awst 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;